OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1796

# Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002

**Dogfennau ar ffurf electronig a defnydd o ddulliau electronig o gyfathrebu**

**11.**—(1) Rhaid i unrhyw fap neu ddogfen y mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi neu yn gorchymyn y dylid eu paratoi, eu dyroddi neu eu rhoi ar gael ar gyfer cael eu harchwilio, ar ffurf electronig, fedru gael eu hadgynhyrchu ar ffurf brintiedig.

(2) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau o'r Rheoliadau hyn sy'n dynodi neu yn awdurdodi'r dull y mae'n rhaid ei ddefnyddio ar gyfer anfon map neu ddogfen arall o un person at berson arall, gall unrhyw ddogfen, gan gynnwys un y mae'r Rheoliadau hyn yn mynnu ei bod ar ffurf ysgrifenedig, gael ei hanfon, fel dull amgen i unrhyw ddull arall, drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, ar yr amod bod gan y person sy'n anfon y ddogfen sail resymol i gredu y daw'r ddogfen i sylw'r person yr anfonir hi ato, mewn ffurf ddarllenadwy, o fewn amser rhesymol.